**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac mewn mannau eraill

Tachwedd 2012

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r penodiadau cyhoeddus y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd, rôl y Cynulliad mewn penodiadau o'r fath a'r prosesau a ddilynir wrth wneud y penodiadau hynny ar hyn o bryd.

Mae'r papur hefyd yn rhoi enghreifftiau o sut y mae seneddau yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus, sef Awdurdod Llundain Fwyaf, Senedd yr Alban, Senedd Ewrop, Senedd yr Unol Daleithiau, a Senedd Canada.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/2502

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac mewn mannau eraill

Tachwedd 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12 / 049

Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad: ... 3**

**2. Penodiadau Llywodraeth Cymru ... 4**

2.1. Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 4
2.2. Cyrff iechyd 6
2.3. Comisiynwyr 7
2.4. Penodiadau eraill 8

**3. Rôl y Cynulliad mewn penodiadau cyhoeddus ... 10**

3.1. Penodiadau a enwebir gan y Cynulliad 10
3.2. Penodiadau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad 12
3.3. Galwadau am newid 13

**4. Penodiadau cyhoeddus a Senedd y Deyrnas Unedig ... 14**

4.1. Y dull o gynnal gwrandawiadau cyn penodi yn San Steffan 16
4.2. Enghreifftiau o ymgeiswyr nas cymeradwywyd gan Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin 17

**5. Sut y mae Seneddau mewn mannau eraill yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus ... 19**

5.1. Senedd yr Alban 19
5.2. Awdurdod Llundain Fwyaf 20
5.3. Senedd Ewrop 21
5.4. Senedd yr Unol Daleithiau 23
5.5. Senedd Canada 24

# Penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac mewn mannau eraill

## 1. Cyflwyniad:

Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am benodi pobl i uwch swyddi mewn nifer o gyrff cyhoeddus sy'n rheoleiddio gwasanaethau, sy'n darparu cyngor ac, mewn ambell achos, sy'n darparu gwasanaethau, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y swyddi hyn yn amrywio o Gadeiryddion cyrff statudol a chyrff cynghori i lu o reoleiddwyr a chomisiynwyr.

Serch hynny, rôl gyfyngedig sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd o ran ystyried penodiadau o'r fath a chraffu arnynt. Yn ôl y gyfraith, nid oes ond gofyn iddo ymwneud â phenodi i dair uwch swydd, a dim ond dwywaith y mae Pwyllgorau'r Cynulliad wedi cynnal gwrandawiadau cyn cadarnhau wrth benodi i'r swyddi hyn. Mae hyn yn groes i'r arferion penodi mwy datblygedig sydd i'w gweld yn Senedd y Deyrnas Unedig ac, i raddau llai, yn Senedd yr Alban yn y blynyddoedd diwethaf, lle y mae pwyllgorau'n cynnal gwrandawiadau cyn penodi neu wrandawiadau cyn cadarnhau ar gyfer nifer o uwch swyddi cyhoeddus cyn i ymgeiswyr gael eu penodi'n swyddogol.

Mae dau ddiben i'r papur hwn. Yn gyntaf, mae'n rhestru rhai o'r uwch benodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd a'r penodiadau hynny y bydd y Cynulliad yn eu gwneud, yn eu cymeradwyo ac yn enwebu ymgeiswyr ar eu cyfer. Yn ail, mae'r papur yn amlinellu'r gweithdrefnau craffu ar benodiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan ac, er mwyn gallu cymharu, mae'n cynnig enghreifftiau o brosesau penodi ar gyfer swyddi cyhoeddus mewn mannau eraill, sef Awdurdod Llundain Fwyaf, Senedd yr Alban, Senedd Ewrop, Senedd yr Unol Daleithiau, a Senedd Canada.

## 2. Penodiadau Llywodraeth Cymru

Swyddi rhan-amser am gyfnodau penodol yw'r rhan fwyaf o'r uwch benodiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru. Rhestrir isod fanylion y penodiadau a wneir ar hyn o bryd, yn ôl categori'r penodiad.

### *2.1. Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru*

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhestr o un ar bymtheg o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ("Cyrff a Noddir"),[1] a phenodir eu haelodau lleyg gan Weinidogion Cymru i wasanaethu ar eu byrddau rheoli fel aelodau anweithredol. Nid oes gan y Cynulliad rôl ym mhroses benodi'r cyrff hyn ac nid oes angen i'r cyrff gael ei ganiatâd cyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau ar eu swyddi.

Caiff unrhyw benodiad a wneir gan Weinidogion Cymru ar gyfer y Cyrff a Noddir ei reoleiddio gan **Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr**. Serch hynny, ni fydd y Comisiynydd yn rheoleiddio pob penodiad cyhoeddus. Yn ôl gwefan y Comisiynydd:

> No public appointment will fall within the Commissioner's remit unless it is to a body listed in the Schedule to the relevant Public Appointments Order in Council or has been specified by the Minister for the Cabinet Office by Instrument in Writing as falling within his remit.[2]

Isod rhestrir yr holl Gyrff a Noddir, ynghyd â'r wybodaeth sydd ar gael am y penodiadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud hyd yn hyn:

**Y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau:** Dr Thomas Gwyn Roberts yw'r Cadeirydd presennol ac fe'i penodwyd gan Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, ar 5 Mawrth 2009.[3]

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:** Gall Llywodraeth Cymru benodi 8 aelod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, i wasanaethu am hyd at dri chyfnod o bedair blynedd. Aelodau presennol yr awdurdod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yw: Martin Buckle, Julie James (Cadeirydd presennol yr Awdurdod),[4] yr Athro Alan Lovell, Carys Howell, Edward John Evans, Margaret Underwood, Ian Rowat a Melanie Doel.[5]

**Cyngor Celfyddydau Cymru:** Yr Athro Dai Smith yw'r Cadeirydd presennol. Cafodd ei ailbenodi i'r swydd am gyfnod o dair blynedd arall tan 31 Mawrth 2015

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cyrff Cyhoeddus*, Mehefin 28 2012
[2] Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, *The Commissioner's remit*
[3] Llywodraeth Cymru, *Datganiad i'r Wasg: Penodi Cadeirydd Newydd ac 'aelodau arbenigol' i Banel ar Gamddefnyddio Sylweddau*, 5 Mawrth 2009.
[4] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, *New Chairman Unanimously Elected to Brecon Beacons National Park Authority*, 4 Gorffennaf 2011
[5] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, *Manylion Cysylltu Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2012-13*

gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ar 21 Mehefin 2012.[6] Mae yn ei swydd ers mis Mawrth 2010.

**Cyngor Gofal Cymru:** Arwel Ellis Owen yw'r Cadeirydd ar hyn o bryd ac fe'i penodwyd yn 2009 am gyfnod o bedair blynedd gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol,.[7]

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru:**[8] Mae *Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*[9] yn nodi y dylai Gweinidogion Cymru benodi o leiaf 8 ond nid mwy na 12 aelod o'r cyngor. Morgan Parry yw Cadeirydd presennol y Cyngor ac fe'i penodwyd ym mis Mawrth 2010.

**Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:** Roger Thomas yw'r Cadeirydd presennol a chafodd ei ailbenodi ym mis Mai 2011 am gyfnod o dair blynedd tan fis Mai 2014.[10] Mae yn y swydd ers mis Mawrth 2008.

**Panel Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr:** Mae gan y panel 20 o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru.[11]

**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru:** Penodwyd y Cadeirydd presennol, Robert Owen Watkin OBE DL, gan Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar 15 Mehefin 2012 am gyfnod o dair blynedd.[12]

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru:** Syr Deian Hopkin yw Llywydd presennol Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Rhagfyr 2011 a daw'r cyfnod i ben ymhen pedair blynedd. Fe'i penodwyd ar 2 Tachwedd 2011 gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth.[13]

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru:** Penodwyd Elisabeth Elias yn Llywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan y Gweinidog Treftadaeth ar y pryd ar 24 Mawrth 2011. Daw ei chyfnod yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2015.[14] Yna, penodwyd Dr Haydn Edwards yn Is-lywydd gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ym mis Hydref 2011. Bydd ei gyfnod yntau yn y swydd yn dod i ben ar 30 Medi 2015.[15]

**Corff Adnoddau Naturiol Cymru:** Corff newydd yw hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2013. Bydd y corff y cyfuno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn

---

[6] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Ailbenodi Cadeirydd Cyngor y Celfyddydau***, Mehefin 21 2012
[7] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Penodi Cadeirydd ac Aelod i Gyngor Gofal Cymru***, 29 Gorffennaf 2009
[8] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion i uno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru er mwyn creu un corff, "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".
[9] ***Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*** (Pennod 43)
[10] Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ***Bywgraffiad aelod cyngor CCAUC, Roger Thomas***
[11] Mae manylion pob un o'r 20 aelod ar gael yn *The Wales Yearbook 2013, FBA, tudalennau* 464-465
[12] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg; Penodiadau i'r Comisiwn Ffiniau***, 15 Mai 2012
[13] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Penodi Llywydd Newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru***, 2 Tachwedd 2011
[14] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Penodi Llywydd Newydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru***, 24 Mawrth 2011
[15] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Penodi Is-lywydd Newydd Amgueddfa Cymru***, 11 Hydref 2011

Coedwigaeth. Yr Athro Peter Matthews yw'r Cadeirydd, ac fe'i penodwyd gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar 1 Awst 2012.[16]

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:** Penodir chwe aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan Weinidogion Cymru. Yr aelodau sydd wedi'u penodi ar hyn o bryd yw Christine Gwyther, Allan Archer, David Ellis, Ted Sangster, Gwyneth Hayward a Melinda Thomas.[17]

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru:** Penodir Comisiynwyr gan y Frenhines ar sail cyngor Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, o dan Warant Frenhinol. Dr Eurwyn William yw Cadeirydd presennol y Comisiwn.[18]

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:** Penodir chwe aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Weinidogion Cymru. Yr aelodau sydd wedi'u penodi ar hyn o bryd yw David Roberts, Iolo ap Gwynn, Denis McAteer, John Lewis Morgan, June Jones a Marian Wyn Jones.[19]

**Cyngor Chwaraeon Cymru:** Yr Athro Laura McAllister yw Cadeirydd presennol y Cyngor Chwaraeon ac fe'i penodwyd gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog Treftadaeth ar y pryd, ym mis Chwefror 2010 am gyfnod o dair blynedd.[20]

**Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru:** Valarie Barrett yw'r Cadeirydd presennol.[21] Serch hynny, cyhoeddodd Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ar 8 Mai 2012, y byddai proses benodi ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn cael ei chynnal ym mis Medi 2012.[22]

## *2.2. Cyrff iechyd*

O dan bwerau a roddwyd iddynt drwy *Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009*[23], mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i benodi Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion, ac aelodau eraill nad ydynt yn swyddogion, i bob un o Fyrddau Iechyd Lleol Cymru. Mae cadeiryddion presennol y byrddau iechyd fel a ganlyn:[24]

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg:** Win Griffiths
- **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan:** David Jenkins OBE
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:** Yr Athro Merfyn Jones
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:** Maria Battle

---

[16] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Penodi Cadeirydd corff adnoddau naturiol newydd Cymru*** 1 Awst 2012
[17] Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ***Rhestr o Aelodau***
[18] Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ***Proffiliau o'r Comisiynwyr***
[19] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, *Aelodau'r Awdurdod*
[20] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Cyn bêl-droedwraig ryngwladol yn cael ei phenodi'n Gadeirydd newydd Cyngor Chwaraeon Cymru,*** 9 Rhagfyr 2009
[21] *The Wales Yearbook 2013*, FBA, tudalen 478
[22] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad ar Benderfyniad: Future membership of the Welsh Industrial Development Advisory Board*** , 24 Mai 2012
[23] ***Rheoliadau Byrddau Iechyd (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau (Cymru) 2009*** (OS 2009/779) (W.67)
[24] GIG Cymru, ***Penodi Cadeiryddion Newydd i arwain Byrddau Iechyd Lleol newydd***, W09231-Hlt, 9 Mawrth 2009

- **Bwrdd Iechyd Cwm Taf:** Dr Chris Jones CBE
- **Bwrdd Iechyd Hywel Dda:** Chris Martin
- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:** Mel Evans

Mae rheoliadau 2009 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion, ac aelodau nad ydynt yn swyddogion, ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig. Cadeiryddion presennol y cyrff hyn yw:

- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:** Stuart Fletcher
- **Ymddiriedolaeth GIG Felindre:** Dr Rosemary Kennedy
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru:** Yr Athro Syr Mansel Aylward CB

At hynny, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn penodi aelodau ar gyfer pob Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru.[25]

Fel sy'n wir am benodiadau i'r Cyrff a Noddir, caiff y penodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru i'r cyrff hyn eu rheoleiddio gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr. Serch hynny, nid oes gan y Cynulliad rôl swyddogol yn y broses benodi.

## *2.3. Comisiynwyr*

Ers datganoli, mae'r tri chomisiynydd canlynol, sy'n benodol ar gyfer Cymru, wedi'u creu yn sgil Deddfau neu Fesurau a wnaethpwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig ac yn y Cynulliad. Penodir y tri'n ffurfiol gan Brif Weinidog Cymru, ac mae gofyn iddo ystyried barn unigolion penodol cyn iddo benodi neb yn ffurfiol. Ni chaiff y penodiadau hyn eu rheoleiddio gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr:

**Comisiynydd Plant Cymru:** Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru yn wreiddiol drwy *Ddeddf Safonau Gofal 2000*[26] a *Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.*[27] Mae'r Deddfau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gael ei benodi gan y Prif Weinidog am gyfnod o saith mlynedd ac ni ellir adnewyddu'r penodiad. Yn anffodus, bu farw'r Comisiynydd cyntaf, Peter Clarke, ym mis Ionawr 2007 a daeth ei olynydd, Keith Towler, i'w swydd ym mis Ionawr 2008.[28] Yn ôl rheoliadau a wnaethpwyd gan y Cynulliad (fel yr oedd wedi'i gyfansoddi ar y pryd) yn 2000[29], mae'n ofynnol ymgynghori â phlant a phobl ifanc cyn penodi i'r swydd hon.

---

[25] Cynghorau Iechyd Cymuned, *Aelodau CICau*, 28 Gorffennaf 2011
[26] *Deddf Safonau Gofal 2000* (Pennod 14) (Saesneg yn unig)
[27] *Deddf Comisiynydd Plant Cymru* (Pennod 18) (Saesneg yn unig)
[28] Llywodraeth Cymru, *Minister offers warm welcome to new Children's Commissioner*, 3 Ionawr 2008
[29] Gweler *Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000* (OS 2000/3121) (Cy.199)

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:** Crëwyd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru drwy *Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn 2006.*[30] Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gael ei benodi'n ffurfiol gan y Prif Weinidog am gyfnod o bedair blynedd a gellir adnewyddu'r penodiad unwaith. Wrth benodi, fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r Prif Weinidog ystyried y cyngor a gaiff ynglŷn â'r penodiad arfaethedig gan unrhyw banel dethol a sefydlir at ddibenion y penodiad a hefyd, bydd yn ofynnol iddo ystyried barn pobl hŷn ddethol sy'n preswylio yng Nghymru.[31] Dechreuodd y Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf, Ruth Marks, ar ei swydd ym mis Ebrill 2008.[32] Penodwyd Sarah Rochira yn ei lle ym mis Ebrill 2012.[33]

**Comisiynydd y Gymraeg:** Mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*[34] yn darparu ar gyfer penodi Comisiynydd y Gymraeg gan y Prif Weinidog am gyfnod penodol. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Mesur hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog ystyried argymhellion y panel dethol ynglŷn â'r penodiad a barn pobl eraill y mae'r Prif Weinidog yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Gallai hyn gynnwys barn Aelodau'r Cynulliad, Pwyllgorau'r Cynulliad, neu'r Cynulliad yn ei grynswth.

Cymeradwywyd *Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011*[35] gan y Cynulliad ar 28 Mehefin ac yn ôl y rhain, rhaid i'r panel dethol gynnwys: Aelod o'r Cynulliad a enwebwyd gan un o bwyllgorau perthnasol y Cynulliad; aelod o staff Llywodraeth Cymru; asesydd penodiadau annibynnol; a rhywun sydd â phrofiad o hybu defnyddio'r Gymraeg a/neu iaith arall. Meri Huws yw'r Comisiynydd presennol ac fe'i penodwyd ar 6 Hydref 2011 am gyfnod o saith mlynedd.[36]

## *2.4. Penodiadau eraill*

Mae gwefan Llywodraeth Cymru hefyd yn rhestru'r cyrff canlynol y bydd Gweinidogion Cymru'n penodi aelodau iddynt. Serch hynny, nid yw penodiadau o'r fath yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ac nid oes gan y Cynulliad rôl ffurfiol yn y broses benodi.

- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru: Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
- Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
- Bwrdd Rheoli Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
- Cadeiryddion Annibynnol Adolygiadau Ôl-weithredol o Ofal Iechyd Parhaus
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Cyngor Llywodraethu Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru

---

[30] ***Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn 2006*** (Pennod 30)
[31] Gweler ***Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007*** (OI 2007/396) (Cy.42)
[32] Llywodraeth Cymru, ***Blwyddyn newydd a llais newydd i bobl hŷn Cymru***, 7 Ionawr 2008
[33] Llywodraeth Cymru, ***Penodi Comisiynydd Pobl Hŷn newydd***, 3 Ebrill 2012
[34] ***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*** (nawm1)
[35] ***Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011*** (OS 2011/1593) (Cy.184)
[36] Llywodraeth Cymru, ***Cyhoeddi Comisiynydd Cyntaf y Gymraeg***, 6 Hydref 2011

- Grŵp Cynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg[37]
- Grŵp Cynghorol Cyfalaf
- Fforwm yr Ucheldir
- Hybu Cig Cymru
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Panel Dyfarnu Cymru
- Panelau Sector: Y Diwydiannau Creadigol; Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch; Ynni a'r Amgylchedd; Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, TGCh, Gwyddorau Bywyd
- Paneli Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu
- Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd
- Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru
- Pwyllgor Ymgynghorol CyMAL (amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru)
- Rheoli Perygl Llifogydd Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Y Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd
- Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl dros Gymru

[37] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cyrff Cyhoeddus*, 28 Mehefin 2012

## 3. Rôl y Cynulliad mewn penodiadau cyhoeddus

Disgrifir rôl bresennol y Cynulliad wrth benodi pobl i swyddi cyhoeddus yn Rheol Sefydlog 10. Dywed ei bod yn rhaid gwneud unrhyw "benodiad perthnasol" (h.y. penodiad y mae gofyn i'r Cynulliad ei wneud, ei gymeradwyo neu enwebu rhywun ar ei gyfer) drwy benderfyniad gan y Cynulliad. At hynny, mae'r Rheol Sefydlog yn galluogi un o bwyllgorau'r Cynulliad y mae ei gylch gorchwyl yn berthnasol i swyddogaethau'r "penodiad perthnasol" i dderbyn tystiolaeth gan ymgeisydd ar gyfer penodiad er mwyn ystyried a yw'r pwyllgor o blaid penodi'r ymgeisydd neu beidio.[38]

O safbwynt ymarferol, dim ond at benodi i dair uwch swydd gyhoeddus y mae "penodiadau perthnasol" yn cyfeirio, a rhoddir manylion y rheini isod. Ni chaiff yr un o'r swyddi hyn ei rheoleiddio gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr.

### *3.1. Penodiadau a enwebir gan y Cynulliad*

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am enwebu pobl ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru:** Drwy *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*[39], crëwyd un corff archwilio cyhoeddus i Gymru, sef Swyddfa Archwilio Cymru (“SAC”), ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd") yn ben arni. Penodir yr Archwilydd gan y Frenhines, yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad, a hynny am gyfnodau o bum mlynedd, er bod *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)* [40], a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 9 Gorffennaf 2012, yn cynnig y dylai’r Archwilydd ddal y swydd am gyfnod o wyth mlynedd ond na ellir adnewyddu'r penodiad.

Ceir rhagor o ddarpariaethau ynglŷn â phenodi'r Archwilydd yn Atodlen 8 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006").[41] Mae'r darpariaethau hyn yn dweud na ddylid enwebu neb nes bod y Cynulliad yn fodlon bod ymgynghori rhesymol wedi bod â'r cyrff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru. Dim ond y Frenhines a gaiff ddiswyddo'r Archwilydd a hynny ar sail camymddwyn ond gall y Cynulliad argymell ei ddiswyddo os bydd o leiaf ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid cynnig o’r fath.

O ran perthynas yr Archwilydd â Phwyllgorau'r Cynulliad, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r unig bwyllgor y mae’n ofynnol i'r Cynulliad ei gael yn ôl Deddf 2006. Er nad oes ganddo rôl benodol o ran penodi’r Archwilydd, mae’n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried adroddiadau am archwilio cyfrifon a baratowyd gan yr

---

[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru,*** Mehefin 2012
[39] ***Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*** (Pennod 23) (Saesneg yn unig)
[40] ***Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)***
[41] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32)

Archwilydd ac adroddiadau am ymchwiliadau gwerth am arian Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Huw Vaughan Thomas yw'r Archwilydd presennol. Fe'i enwebwyd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn ar 13 Gorffennaf 2010[42] ac fe'i penodwyd yn ffurfiol ym mis Hydref 2010. Pan wnaethpwyd y cynnig i'w enwebu, rhoddodd Jonathan Morgan AC, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ar y pryd, fraslun o'r broses recriwtio a ddilynwyd cyn ei enwebu:

> … rhoddwyd cychwyn ar broses recriwtio lawn ac agored, a'i chynnal yn unol ag egwyddorion Nolan ar gyfer safonau mewn bywyd cyhoeddus. Hysbysebwyd y swydd drwy'r wlad. Bûm yn cadeirio panel i gynorthwyo â'r broses, ac i asesu'r ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon. Ochr yn ochr â mi, eisteddai Aelodau'r Cynulliad, Bethan Jenkins a Jeff Cuthbert, John Purcell, cyn ddistain ac archwilydd cyffredinol Gweriniaeth Iwerddon, Keith Bush, prif gynghorydd cyfreithiol y Cynulliad, Steve Thomas, prif weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Wendy Burton, ein hasesydd annibynnol. Cawsom gefnogaeth ar hyd y daith gan staff Comisiwn y Cynulliad, ac yr wyf yn eithriadol o ddiolchgar iddynt, a chan Odgers Bernston, cwmni sy'n arbenigo mewn chwilio am uwch swyddogion. Drwy gynnwys prif weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sicrhawyd ein bod yn cydymffurfio â'r gofyniad i ymgynghori â llywodraeth leol. I'r perwyl hwnnw, cydymffurfiwyd â gofynion cyfreithiol y Ddeddf.[43]

Ychwanegodd

> Mater i Gyfarfod Llawn yn y Cynulliad yw enwebu rhywun i'w benodi'n archwilydd cyffredinol, ac mae'r un peth yn wir hefyd am benodiadau eraill sydd ar hyn o bryd yn nwylo'r Cynulliad Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Archwilio—fel yr oedd bryd hynny—wedi arwain wrth ystyried materion o'r fath a chynghori'r Cynulliad yn eu cylch. Credem ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus barhau â'r rôl hon, ac, yn wir, ei fod yn cryfhau ei allu i gynnig cyngor gwybodus. **Dyna pam y penderfynwyd ychwanegu gwrandawiad cadarnhau at y broses hon—datblygiad arloesol ar gyfer gwneud y penodiad cyfansoddiadol allweddol hwn. Drwy'r gwrandawiad hwn, bu modd craffu'n agored ac yn dryloyw ar yr ymgeisydd mwyaf addas yn ôl y broses recriwtio, gan gynnig mwy o hyder i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a, maes o law, i'r Cynulliad, fod y dewis ymgeisydd yn addas i'w enwebu i'w Mawrhydi ar gyfer ei benodi** *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].*[44]

Dyma'r tro cyntaf i un o Bwyllgorau'r Cynulliad gynnal gwrandawiad cyn penodi cyn i enwebiad a phenodiad ffurfiol ddigwydd.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Crëwyd swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*[45] gan sefydlu'r swydd yn ffurfiol ym mis Ebrill 2006. Penodir yr Ombwdsmon hwn am gyfnod o saith mlynedd gan y Frenhines ar ôl i'r Cynulliad ei enwebu, ac nid oes modd adnewyddu'r penodiad. Gall y Frenhines ddiswyddo'r Ombwdsmon hefyd ar sail camymddwyn a gall y Cynulliad argymell ei

---

[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 13 Gorffennaf 2010
[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 13 Gorffennaf 2010
[44] Ibid
[45] ***Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*** (Pennod 10)

ddiswyddo hefyd os bydd o leiaf ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid cynnig o'r fath.

Adam Peat oedd yr Ombwdsmon cyntaf. Penodwyd Peter Tyndall yn ail Ombwdsmon o fis Ebrill 2008 ymlaen. Fe'i henwebwyd i'w benodi ar ôl proses recriwtio ffurfiol gan banel a oedd yn cynnwys: Alun Cairns AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar y pryd; Ann Abraham, Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd Lloegr ar y pryd; Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd; a Vivienne Sugar, a oedd yn gweithredu fel Asesydd Annibynnol.[46]

## *3.2. Penodiadau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad*

Crëwyd swydd y **Comisiynydd Safonau** drwy *Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.*[47] Yn y Mesur hwn, gwneir darpariaethau i'r Cynulliad benodi'r Comisiynydd am gyfnod o chwe mlynedd ac nid oes modd adnewyddu'r penodiad. Gerard Elias, Cwnsler y Frenhines, yw'r Comisiynydd presennol ac fe'i penodwyd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn ar 17 Tachwedd 2010. Wrth gynnig yr enwebiad, rhoddodd Jeff Cuthbert AC, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y pryd, drosolwg o'r broses recriwtio, gan gynnwys manylion gwrandawiad cadarnhau a gynhaliwyd cyn penodi'r Comisiynydd.

> Bu'r broses o ddewis Gerard Elias yn un agored a thryloyw. Cadeiriais banel dewis a oedd yn fy nghynnwys innau, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol, Stuart Allan, Comisiynydd Safonau Seneddol yr Alban, a Kathryn Bishop, sydd â phrofiad helaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn aseswr annibynnol. Cawsom ystod eang o geisiadau, ac argymhellodd y panel yn unfrydol benodi Gerard Elias. Wedyn, aeth Mr Elias i wrandawiad cadarnhau cyhoeddus gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Hwn yw'r ail dro yn unig i weithdrefn felly gael ei dilyn yn y Cynulliad Cenedlaethol, a galluogodd bob aelod o'r pwyllgor i holi Mr Elias am ei ymagwedd at y swydd. Cadarnhaodd y pwyllgor yn unfrydol benderfyniad y panel penodiadau, ac argymhellodd ei benodi i'r Cynulliad llawn.[48]

Mae Comisiwn y Cynulliad yn penodi unigolion i'r **Corff Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol** hefyd, corff a sefydlwyd drwy *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.*[49] Penodir ei aelodau gan Gomisiwn y Cynulliad gan ddilyn trefniadau dethol y bydd Clerc a Phrif Weithredwr y Cynulliad yn penderfynu arnynt. Penodwyd aelodau presennol y Bwrdd, gan gynnwys ei Gadeirydd, y Gwir Anrh. George Reid, gan y Comisiwn ar 22 Medi 2010.[50] Gan mai Comisiwn y Cynulliad sy'n gwneud y penodiadau hyn yn uniongyrchol, nid yw'n ofynnol i Aelodau'r Cynulliad eu hystyried eto cyn penodi'n ffurfiol.

---

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad i'r Wasg: *Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*, 11 Mawrth 2008

[47] ***Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*** (nawm 4)

[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn,*** 17 Tachwedd 2010

[49] ***Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*** (nawm 4)

[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad i'r Wasg: ***Y Cynulliad Cenedlaethol yn penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Taliadau***, 22 Medi 2010

### *3.3. Galwadau am newid*

Cyhoeddwyd erthygl gan Mark Drakeford AC ar wefan Click on Wales ar 21 Medi 2012 yn trafod rôl y Cynulliad wrth benodi uwch swyddogion cyhoeddus. Yn yr erthygl honno, dadleuodd Mr Drakeford fod y Senedd bellach ar ei hôl hi wrth benodi prif swyddogion cyhoeddus, o ran bod yn atebol ac yn agored, o gymharu â datblygiadau mewn mannau eraill. [51] Ychwanegodd:

> Most notably in the House of Commons since 2008 relevant Select Committees have scrutinised the decisions of appointing Ministers … The time is long overdue for Committees of the National Assembly to discharge the same oversight, and to provide the same guarantee of democratic legitimacy, as is now available in comparable circumstances elsewhere …
>
> What might this mean for Wales? The Welsh Government web-site lists sixteen major bodies, each of which has a publicly appointed chair. These include, for example, the Arts Council, the Care Council, the Higher Education Funding Council and the Sports Council. In addition, the Commissioners for Children, Older People and the Welsh Language are all major posts of the sort which, in Westminster, would involve a direct parliamentary stage in the appointment process.
>
> … a system of scrutiny of public appointments is desirable and necessary for at least a smaller range of key posts. It seeks to bring the position here into line with the most modest steps in that direction which have already been achieved elsewhere and which, as a modern and progressive institution, the National Assembly would surely wish to incorporate into its own way of working.[52]

Mewn erthygl atodol a gyhoeddwyd ar flog newyddion y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ar 17 Hydref 2012, cyfeiriodd Mr Drakeford at yr adborth a gafodd ar ei syniadau hyd hynny:

> Since first making this suggestion I have been heartened by the support it has already gathered. Publicly scrutinised public appointments produce better outcomes, and that is a result which members of all political parties across the Assembly chamber are keen to bring about. On the parliamentary side, I believe that pre-appointment hearings could be accommodated within the current working arrangements for Assembly Committees, and that a willingness exists to help that to happen. The Welsh Government, I know, is also prepared to consider the proposal from the perspective of Ministers. I look forward to the results of that consideration so that the case below can be translated into a newly invigorated appointment process here in Wales.[53]

[51] Click on Wales, ***Assembly should have say in choice of Quango chairs***, 21 Medi 2012
[52] Ibid
[53] Blog Newyddion y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, ***Committees need to take a democratic role in making public appointments***, 17 Hydref 2012

## 4. Penodiadau cyhoeddus a Senedd y Deyrnas Unedig

Yn wahanol i'r datblygiadau diweddaraf o ran penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, mae dadl ar droed ers tro yn San Steffan ynglŷn ag a ddylai Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer uwch benodiadau cyhoeddus. Gellir olrhain y trefniadau presennol ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin yn ôl i'r Papur Gwyrdd *The Governance of Britain*[54] a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Lafur ar y pryd ym mis Gorffennaf 2007. Yn y ddogfen honno cynigiwyd y dylai Tŷ'r Cyffredin chwarae mwy o ran wrth ddethol prif swyddogion cyhoeddus:

> The Government, in consultation with the Liaison Committee, will prepare a list of appointments for which these hearings will apply. Where responsibility is devolved, it will be for the respective administration to consider the appointment.[55]

Ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, cynhaliwyd gwrandawiad cyn penodi ar gyfer swydd Cadeirydd y Bwrdd Ystadegau ar y pryd (a ailenwyd yn Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig yn ddiweddarach) gan Bwyllgor Dethol y Trysorlys. Bu hwnnw wedyn yn sail ar gyfer y ddadl a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Gorffennaf 2007. Cytunodd y Tŷ y dylid penodi'r enwebai, Syr Michael Scholar, heb orfod cynnal pleidlais ffurfiol.[56] Mabwysiadwyd prosesau tebyg wedyn i benodi aelodau ar gyfer y Pwyllgor Polisi Ariannol a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.[57]

Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus Tŷ'r Cyffredin adroddiad yn ymateb i gynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac i ddatblygiadau cynnar. Er bod ganddo rai amheuon, croesawodd y Pwyllgor gynigion y Papur Gwyrdd ynglŷn â gwrandawiadau cyn penodi. Awgrymwyd hefyd restr o swyddi amlwg y dylid cynnal gwrandawiadau o'r fath ar eu cyfer yn y dyfodol. Ymhlith y rhain, roedd y canlynol:

- **Archwilwyr:** Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol (rhaid cynnal pleidlais eisoes yn Nhŷ'r Cyffredin i'w benodi) a Chadeirydd y Comisiwn Archwilio;
- **Ombwdsmyn ac archwilwyr cwynion;** Yr Ombwdsmon Pensiynau a Chadeirydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;
- **Rheoleiddwyr:** Y Comisiynydd Gwybodaeth a Chadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus;
- **Arolygwyr:** Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau EM ac Arolygydd Cwnstabliaeth EM;

[54] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ***The Governance of Britain***, Gorffennaf 2007, Cm7170
[55] Ibid
[56] Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Parliamentary involvement in public appointments***, SN/PC/04387, 2 Mawrth 2012, tudalen 5
[57] Ibid

- **Penodwyr:** Cadeirydd y Comisiwn Penodiadau (Comisiwn Penodiadau'r GIG gynt) a Chadeirydd Comisiwn Penodiadau Tŷ'r Arglwyddi. [58]

Cyhoeddwyd rhestr derfynol o'r swyddi y cynhelir gwrandawiadau cyn penodi ar eu cyfer ym mis Mawrth 2008 gan Bwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin (pwyllgor Cadeiryddion holl Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin). Roedd y rhestr yn cynnwys 29 o swyddi, gan gynnwys ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus, arolygwyr a rheoleiddwyr (mae'r rhestr lawn i'w gweld ar ffurf atodiad ar dudalen 24 yr **House of Commons Library's Standard Note on parliamentary involvement in public appointments**). Ymatebodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r adroddiad ym mis Mehefin 2008.

Ym mis Chwefror 2010, cyhoeddwyd adroddiad gan Uned y Cyfansoddiad yng Ngholeg Prifysgol Llundain a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor Cyswllt a Swyddfa'r Cabinet yn gwerthuso'r gwrandawiadau craffu cyn penodi a oedd wedi'u cynnal hyd hynny.[59] Ystyriodd y Pwyllgor Cyswllt waith ymchwil Uned y Cyfansoddiad yn ei adroddiad blynyddol ar sesiwn 2008-2009,[60] ac ymatebodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i hwnnw ym mis Awst 2010.[61] Cyhoeddwyd rhagor o waith ymchwil ar rôl Senedd y Deyrnas Unedig yn y broses penodiadau cyhoeddus gan y Sefydliad Llywodraethu ym mis Mawrth 2011.[62] Yn y ddogfen honno, cynigiwyd cyfres o argymhellion ynghylch y drefn bresennol, gan gynnwys cynnig i roi "pŵer atal effeithiol" i bwyllgorau yng nghyswllt oddeutu 25 o benodiadau cyhoeddus yn yr haen uchaf.

Cafwyd rhagor o ddatblygiadau o ran cynnal gwrandawiadau cyn-cychwyn ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig a ffurfio llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Mai 2010. Dywedodd y glymblaid yn ei rhaglen lywodraethu y byddai'n cryfhau pwerau Pwyllgorau Dethol i graffu ar benodiadau cyhoeddus pwysig.[63]

Ni roddwyd rhagor o fanylion ar y pryd i awgrymu hyd a lled cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond cynhwyswyd darpariaethau ynglŷn â rôl Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin wrth benodi aelodau ar gyfer y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn Atodlen 1 i *Ddeddf Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Archwilio Cenedlaethol 2011*,[64] a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Mawrth 2011.[65] Roedd y darpariaethau hyn yn dweud na ellid penodi aelodau ar gyfer y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol heb gael caniatâd Pwyllgor y Trysorlys yn gyntaf.

---

[58] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, ***Parliament and Public Appointments: Pre-appointment hearings by select committees***, 16 Ionawr 2008
[59] Coleg Prifysgol Llundain, Uned y Cyfansoddiad, ***Parliamentary Scrutiny of Senior Public Appointments***, Medi 2009 - Ionawr 2010
[60] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, ***The Work of Committees in Session 2008-9*** , HC 426, 16 Mawrth 2010
[61] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, ***Government Response to the Committee's Second Report of Session 2009-10***, HC 415, 2 Awst 2010
[62] Institute for Government, ***Balancing Act – The right role for parliament in public appointments***, 7 Mawrth 2011
[63] Swyddfa'r Cabinet, ***The Coalition: our programme for government***, Mai 2010, tudalen 21
[64] ***Deddf Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Archwilio Cenedlaethol 2011*** (Pennod 4) (Saesneg yn unig)
[65] Gweler Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Parliamentary involvement in public appointments***, SN/PC/04387, 2 Mawrth 2012, tudalen 21

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn ac yn dilyn y dystiolaeth a gafodd gan Uned y Cyfansoddiad yng Ngholeg Prifysgol Llundain, gan y Sefydliad Llywodraethu a chan Weinidog Swyddfa'r Cabinet, y Gwir Anrh. Francis Maude AS, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyswllt adroddiad arall am Bwyllgorau Dethol a Phenodiadau Cyhoeddus ar 4 Medi 2011.[66] Casgliad yr adroddiad oedd bod yr arbrawf wedi bod yn llwyddiannus a bod y weithdrefn yn gam bach ymlaen o ran sicrhau bod penderfyniadau gweinidogion yn ddemocrataidd atebol.[67] Serch hynny, argymhellwyd y dylid mireinio rhestr y swyddi y mae'r weithdrefn yn berthnasol iddynt yn ogystal â diwygio'r canllawiau presennol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor a chan Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â gwrandawiadau cyn penodi a chyhoeddi un ddogfen ganllaw gyfunol.[68]

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i adroddiad y Pwyllgor ar 18 Mehefin 2012, ac fe gynhwyswyd hwnnw mewn adroddiad byrrach arall a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 6 Medi 2012.[69] Roedd yr adroddiad yn feirniadol iawn o'r ffordd yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynd ati i graffu ar benodiadau cyhoeddus hyd hynny ac yn gresynu'n fawr bod naw mis wedi mynd heibio cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi ymateb ffurfiol.[70]

## *4.1. Y dull o gynnal gwrandawiadau cyn penodi yn San Steffan*

Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyswllt ym mis Mawrth 2008, yn cynnwys y canllawiau drafft canlynol ynghylch sut y dylai Pwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin gynnal gwrandawiadau cyn penodi.

> *Preparing for the session*
>
> The Committee should aim to give the witness at least a week's notice of the session. Standard briefing should be available to the candidate on what to expect from the session. The candidate should also be informed how long the session is likely to last.
>
> *During the session*
>
> The Chairman should ensure that Members are aware that their questions must remain relevant to the professional competence and personal independence of the candidate. Questions eliciting background information about the candidate's past career and about the selection process for the post are also normally acceptable.
>
> The candidate will need to be able to withstand parliamentary and public scrutiny should they take up the post, and the purpose of the session is to test this. Questioning may therefore be robust, and it may cover some areas that might not be appropriate at interview, such as party political allegiance. The Chairman should intervene, however, if questions are irrelevant, unduly personal, or discriminatory.

[66] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, ***Select Committees and Public Appointments***, 4 Medi 2011
[67] Gweler Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Parliamentary involvement in public appointments***, SN/PC/04387, 2 Mawrth 2012, tudalen 22
[68] Ibid, tudalen 23
[69] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, Datganiad Newyddion ***Select Committees and Public Appointments***, 6 Medi 2012
[70] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, ***Select Committees and Public Appointments: the Government's response***, 6 Medi 2012

*After the session*

> Immediately after the evidence session, the Committee should meet in private to agree a report to the House containing its views on the suitability of the candidate. This will ensure both that the evidence is fresh in Members' minds and that Members who were not present at the evidence do not influence the content of the report. It will also avoid unnecessarily prolonged speculation about a candidate's fate. The Committee may also wish to instruct the Chairman to write to the relevant Minister with any opinions that it prefers to express privately, to supplement the published report.
>
> The Committee's report should be published as soon as possible after the evidence session. Reports should be subject to a 24 hour embargo to allow the candidate and the Minister to prepare a response to any negative comments. They should be provided under embargo only to the candidate and the Minister.[71]

Cadarnhawyd y dull hwn wedyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac fe'i ailgyhoeddi ar ffurf atodiad yn y canllawiau drafft ar gynnal gwrandawiadau cyn penodi gan bwyllgorau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Awst 2009.[72]

Mae manylion yr holl benodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'w gweld ar wefan Penodiadau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig a ddarperir gan **Swyddfa'r Cabinet.**

## *4.2. Enghreifftiau o ymgeiswyr nas cymeradwywyd gan Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin*

Dim ond llond llaw o ymgeiswyr a ffafriwyd sydd wedi cael eu gwrthod gan Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ers cyflwyno gwrandawiadau cyn penodi yn 2007. Yn eu plith, mae'r canlynol:

- **Comisiynydd Plant Lloegr (Hydref 2009):** Er bod Pwyllgor Plant, Ysgolion a Theuluoedd Tŷ'r Cyffredin yn fodlon bod yr ymgeisydd a ffafriwyd, Dr Maggie Atkinson, wedi dangos ei bod yn hynod gymwys o safbwynt proffesiynol, teimlai'r pwyllgor na ddylid ei phenodi oherwydd y byddai wedi hoffi gweld mwy o arwydd ei bod yn benderfynol o arddel annibyniaeth y swydd, o herio'r status quo ar ran plant, ac o ymestyn cylch gorchwyl y swydd, yn enwedig, drwy fod yn lladmerydd ar ran hawliau plant.[73] Serch hynny, gwrthododd y Gwir Anrhydeddus Ed Balls AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd ar y pryd, argymhellion y pwyllgor a bwrw ymlaen â'r penodiad gwreiddiol.
- **Prif Arolygydd Prawf EM (Mehefin 2011):** Nid oedd y Pwyllgor Cyfiawnder o blaid penodi Diana Fulbrook yn Brif Arolygydd Prawf EM am ei fod yn teimlo nad oedd yn rhoi digon o bwys ar leihau aildroseddu a bod angen i'r Prif

---

[71] Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, ***Pre-appointment hearings by select committees***, HC 384, 5 Mawrth 2008
[72] Swyddfa'r Cabinet, ***Pre-appointment hearings by Select Committees: Guidance for departments***, Awst 2009
[73] Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Parliamentary involvement in public appointments***, SN/PC/04387, 2 Mawrth 2012, tudalen 13

Arolygydd sbarduno newid yn y system prawf.[74] Yn sgil argymhellion y Pwyllgor, ni phenodwyd Diana Fulbrook a phenodwyd Liz Calderbank i'r swydd dros dro ym mis Medi 2011.[75]

- **Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig (Gorffennaf 2011):** Ar ôl gwrandawiad cyn penodi a gynhaliwyd gan Bwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, penderfynodd yr ymgeisydd llwyddiannus, y Fonesig Janet Finch, dynnu ei chais yn ôl am y swydd. Digwyddodd hynny cyn i'r Pwyllgor gyhoeddi unrhyw adroddiad am y sesiwn dystiolaeth.[76]
- **Cyfarwyddwr y Swyddfa Mynediad Teg (Chwefror 2012):** Gwrthododd Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin gefnogi penodi Les Ebdon yn Gyfarwyddwr y Swyddfa Mynediad Teg gan nad oedd wedi cael ei argyhoeddi gan ddisgrifiadau'r Athro Ebdon o wraidd y rhwystrau a oedd yn atal pobl rhag mynd i'r brifysgol.[77] Serch hynny, penderfynodd y Gwir Anrh. Vince Cable AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, fwrw ymlaen â'r penodiad.[78]

[74] Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Parliamentary involvement in public appointments***, SN/PC/04387, 2 Mawrth 2012, tudalen 14
[75] Ibid
[76] Ibid, tudalen 15
[77] Ibid, tudalen 16
[78] Ibid

## 5. Sut y mae Seneddau mewn mannau eraill yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus

### *5.1. Senedd yr Alban*

Yn ystod blynyddoedd cyntaf Senedd yr Alban, ystyriwyd sut y byddai'r Senedd yn ymwneud â phenodi swyddogion cyhoeddus yno. Ym 1999, nodwyd yng nghytundeb clymblaid Llafur yr Alban a Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban y byddai Gweithrediaeth yr Alban (a ailenwyd yn Llywodraeth yr Alban wedi hynny) yn gwneud fel a ganlyn :

> … encourage the Parliament to review and monitor public appointments to ensure that the highest standards and accountability in public life and the accountability of the appointment…[79]

Erbyn y flwyddyn ganlynol, fodd bynnag, yn ei phapur ymgynghori, *Appointments to Public Bodies in Scotland: Modernising the System,* datganodd Gweithrediaeth yr Alban yn glir ei gwrthwynebiad i gael y senedd yn craffu ar enwebiadau gweinidogion ar gyfer cyrff cyhoeddus cyn eu penodi. Dywedwyd yn y papur:

> The Executive does not believe that it would be appropriate to import anything resembling the highly confrontational Parliamentary confirmation hearing systems that operate in some countries. They believe that the introduction of a confirmation hearing system could deter many able candidates from applying for high profile public service. The Executive also has reservations about other forms of pre-appointment Parliamentary involvement for the same reason.[80]

At hynny, roedd dadansoddiad Gweithrediaeth yr Alban o'r ymgynghoriad yn dweud mai ychydig o gefnogaeth a oedd wedi bod o blaid y senedd yn ymwneud â'r broses cyn penodi, ac nad oedd fawr fwy o gefnogaeth ychwaith o blaid y senedd yn ymwneud â'r drefn safonol ar ôl penodi.[81]

Yn 2001, cyflwynodd Alex Neil, Aelod o Senedd yr Alban, gynnig a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Senedd yr Alban gymeradwyo enwebiadau gan Weinidogion yr Alban ar gyfer penodiadau cyhoeddus penodol. Roedd *Bil Penodiadau Cyhoeddus (Cymeradwyaeth Seneddol) (yr Alban)*[82] hefyd yn cynnwys darpariaethau a fyddai wedi rhoi grym i'r Senedd atal penodi ymgeiswyr a ystyrid yn amhriodol neu'n anaddas. Trechwyd y Bil.

Er gwaethaf methiant ymdrechion cynnar i gryfhau goruchwyliaeth seneddol dros benodiadau cyhoeddus gan Weinidogion yr Alban, mae Senedd yr Alban ar hyn o bryd yn gyfrifol am enwebu pobl ar gyfer nifer o uwch benodiadau cyhoeddus, sydd wedyn yn cael eu penodi'n ffurfiol gan y Frenhines. Mae'r rhain yn cynnwys:

---

[79] Gweithrediaeth yr Alban, *Partnership for Scotland: An agreement for the first Scottish Parliament*, Mai 1999 yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur Ymchwil 08/39 ***Parliamentary involvement in public appointments***, 23 Ebrill 2008, tudalen 45

[80] Gweithrediaeth yr Alban, *Appointments to public bodies in Scotland: Modernising the system: Consultation Paper*, Chwefror 2000, paragraff 7.4 yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur Ymchwil 08/39 ***Parliamentary involvement in public appointments***, 23 Ebrill 2008, tudalen 46

[81] Gweithrediaeth yr Alban, *Public Bodies: Proposals for Change*, Mehefin 2001 yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur Ymchwil 08/39 ***Parliamentary involvement in public appointments***, 23 Ebrill 2008, tudalen 46

[82] ***Public Appointments (Parliamentary Approval) (Scotland) Bill*** [fel y'i cyflwynwyd]

- Archwilydd Cyffredinol yr Alban;
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban;
- Comisiynydd Gwybodaeth yr Alban;
- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban;
- Cadeirydd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban

Cynhelir y broses benodi ar gyfer pob swydd gan banel dethol o Aelodau Senedd yr Alban sy'n adlewyrchu cydbwysedd cynrychiolaeth wleidyddol y Senedd ac fe gadeirir y panel gan un o'r Llywyddion.[83] Ceir manylion am y prosesau hyn yn Rheol Sefydlog 3.11 Senedd yr Alban.[84]

Bydd Senedd yr Alban hefyd yn cadarnhau penodi aelodau ar gyfer Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban. Corff Corfforaethol Senedd yr Alban (y corff sy'n cefnogi gwaith y Senedd a'i haelodau) a fydd yn gwneud y penodiadau hynny.[85] Mae'r Senedd yn gyfrifol hefyd am benodi Comisiynydd Safonau Cyhoeddus ar gyfer Alban, Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i'r Alban ac aelodau Comisiwn Safonau'r Alban. [86]

Bydd adroddiadau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynghylch penodiadau gweinidogion ar gyfer cyrff cyhoeddus yn yr Alban yn cael eu hystyried hefyd gan Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban.[87] Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Safonau Cyhoeddus yr Alban ynghylch cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau Senedd yr Alban a buddiannau Aelodau.

## *5.2. Awdurdod Llundain Fwyaf*

Mae Atodlen 4 i *Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999*[88] (fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 2007)*[89] yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Gynulliad Llundain gynnal gwrandawiadau cadarnhau gydag ymgeiswyr ar gyfer y penodiadau pwysig canlynol a wneir gan y Maer:

- Cadeirydd, neu Ddirprwy Gadeirydd Trafnidiaeth Llundain (ac eithrio lle y bydd y Maer yn dewis penodi ei hun i'r swydd);
- Cadeirydd, neu Ddirprwy Gadeirydd, Asiantaeth Datblygu Llundain;
- Cadeirydd, neu Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod yr Heddlu Metropolitan (ac eithrio lle y bydd y Maer yn dewis penodi ei hun i'r swydd);
- Cadeirydd Awdurdod Tân a Chynllunio ar gyfer Argyfwng Llundain;
- Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Ddiwylliannol;

[83] Senedd yr Alban, ***About the Parliament: Officeholders***
[84] Senedd yr Alban, ***Standing Orders of the Scottish Parliament***, Hydref 2012
[85] Ibid, Rheol 3.13
[86] Ibid, Pennod 3A
[87] Senedd yr Alban, ***Standards, Procedures and Public Appointments Committee: About the Committee***
[88] ***Greater London Authority Act 1999*** (Pennod 29)
[89] ***Greater London Authority Act 2007*** (Pennod 24)

- Cadeirydd, neu ddirprwy gadeirydd, Awdurdod Cronfa Bensiynau Llundain;
- Cadeirydd Bwrdd Gwastraff ac Ailgylchu Llundain (lle y bydd y Maer yn penderfynu peidio â phenodi ei hun i'r swydd).[90]

Rhaid i'r Maer roi gwybod i Gynulliad Llundain pan fydd yn dymuno penodi un o'r uchod, a bydd gan y Cynulliad dair wythnos i ymateb iddo gydag argymhelliad ynglŷn ag a ddylid cadarnhau'r penodiad ai peidio. Gall y Cynulliad ofyn i ymgeisydd ddod i Wrandawiad Cadarnhau i ateb cwestiynau am y penodiad, cyn iddo gynnig ei argymhelliad. Pwyllgor Gwrandawiadau Cadarnhau'r Cynulliad a fydd yn ystyried gwrandawiadau o'r fath.[91]

Gall y Maer ddewis derbyn neu wrthod argymhelliad y Cynulliad a rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad am ei benderfyniad. Ni ellir penodi neb nes i'r broses gadarnhau ddod i ben.

## *5.3. Senedd Ewrop*

Mae gan Senedd Ewrop, o dan bwerau a roddwyd iddi gan **Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd** (a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gytuniad Lisbon yn 2009), rôl bwysig wrth benodi'r **25 o Gomisiynwyr Ewrop** a Llywydd y Comisiwn. Juan Manuel Barroso yw Llywydd presennol y Comisiwn a phenodwyd y Comisiwn presennol yn 2010 am gyfnod o bedair blynedd.

Er mai'r Cyngor Ewropeaidd (sef yr enw ar uwchgynadleddau neu gyfarfodydd arweinyddion yr Undeb Ewropeaidd) sy'n enwebu Llywydd y Comisiwn yn y lle cyntaf, rhaid i'r penodiad gael ei gadarnhau gan Senedd Ewrop cyn cwblhau'r broses yn ffurfiol.

Yna, ar ôl ei gadarnhau, bydd y Cyngor Ewropeaidd, drwy gyd-gytuno â Llywydd y Comisiwn, yn mabwysiadu'r rhestr o bobl y mae'n bwriadu eu penodi'n aelodau o'r Comisiwn. Wedyn, bydd penodiad pob Comisiynydd yn cael ei ystyried gan Senedd Ewrop, sydd â'r grym i gymeradwyo ynteu i wrthod y Comisiwn yn ei grynswth, ond nid i wrthod unigolion.

Eglurir y prosesau ar gyfer cymeradwyo neu wrthod y Comisiwn Ewropeaidd yn Rheolau Gweithdrefnau Senedd Ewrop, ac mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau i Bwyllgorau'r Senedd gynnal gwrandawiadau cadarnhau cyhoeddus. Dywed Rheol 105:

> 1. The President shall, after consulting the President-elect of the Commission, request the nominees proposed by the President-elect of the Commission and by the Council for the various posts of Commissioner **to appear before the appropriate committees according to their prospective fields of responsibility. These hearings shall be held in public** *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.

---

[90] Awdurdod Llundain Fwyaf, ***How the GLA is organised: Protocol on Mayoral Appointments***, *paragraff 16*
[91] Awdurdod Llundain Fwyaf, ***The London Assembly: Confirmation Hearings Committee***

> 2. The President may invite the President-elect of the Commission to inform Parliament about the allocation of portfolio responsibilities in the proposed College of Commissioners in accordance with his or her political guidelines.
>
> 3. The appropriate committee or committees shall invite the Commissioner-designate to make a statement and answer questions. The hearings shall be organised in such a way as to enable Commissioners-designate to disclose to Parliament all relevant information. Provisions relating to the organisation of the hearings shall be laid down in an annex to these Rules of Procedure(1) .
>
> 4. The President-elect shall present the college of Commissioners and their programme at a sitting of Parliament which the President of the European Council and the President of the Council shall be invited to attend. The statement shall be followed by a debate.
>
> 5. In order to wind up the debate, any political group or at least 40 Members may table a motion for a resolution. Rule 110(3), (4) and (5) shall apply.
>
> **Following the vote on the motion for a resolution, Parliament shall elect or reject the Commission by a majority of the votes cast** *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]***.**
>
> The vote shall be taken by roll call.
>
> Parliament may defer the vote until the next sitting.
>
> 6. The President shall inform the Council of the election or rejection of the Commission.
>
> 7. In the event of a substantial portfolio change during the Commission's term of office, the filling of a vacancy or the appointment of a new Commissioner following the accession of a new Member State, the Commissioners concerned shall be invited to appear before the committees responsible for the areas of responsibility in question in accordance with paragraph 3.[92]

Ar ddiwedd y broses seneddol, bydd y Cyngor Ewropeaidd yn gyfrifol am benodi'r Comisiwn yn ei grynswth drwy fwyafrif cymwysedig.

Ar ôl eu penodi, bydd y Comisiynwyr yn atebol i Senedd Ewrop yn ystod eu cyfnod yn y swydd, a bydd gan y Senedd y grym i ddiswyddo'r Comisiwn yn ei grynswth unrhyw bryd. [93] Serch hynny, yn unol â'r drefn pan gafodd y Comisiynwyr eu penodi'n wreiddiol, ni fydd gan y Senedd y grym i ddiswyddo Comisiynwyr unigol.

Mae gan Senedd Ewrop rôl yn y broses o ethol Ombwdsmon Ewrop hefyd; swydd a sefydlwyd yn 1995 yw hon i ymchwilio i achosion o gamweinyddu gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Ceir manylion ynghylch sut yr etholir yr Ombwdsmon ar wefan Senedd Ewrop:

> The Ombudsman election procedure is supervised by the Petitions Committee, which checks that applications are admissible and that candidates fulfil all the conditions required for the post. EU rules establish, inter alia, that the Ombudsman must "offer every guarantee of

[92] Senedd Ewrop, ***Rule of Procedure: 7th parliamentary term***, Gorffennaf 2012
[93] Gwefan EUROPA, ***Y Comisiwn Ewropeaidd***

independence". The Ombudsman is elected by Parliament in a secret vote at the start of each parliamentary term.[94]

Ailbenodwyd Nikiforos Diamandouros i'r swydd ym mis Ionawr 2010 am gyfnod o bum mlynedd.[95]

At hynny, mae'r Cytuniad yn dweud bod gan y Senedd yr hawl i fynnu yr ymgynghorir â hi pan wneir penodiadau i Lys Archwilwyr a Bwrdd Gweithredol Banc Canolog Ewrop. Gwneir penodiadau ar gyfer y cyrff hyn yn ffurfiol yn dilyn argymhelliad gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.[96]

### *5.4. Senedd yr Unol Daleithiau*

Mae Erthygl 2, Adran 2 o **Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau** yn rhoi'r grym i'r Arlywydd benodi pobl ar gyfer nifer fawr o swyddi gan gynnwys barnwyr ffederal, swyddogion penodol mewn adrannau ar lefel y cabinet, y gwasanaethau milwrol a diplomyddion.[97] Mae'r penodiadau hyn yn golygu tua 4,000 o enwebiadau sifil a 65,000 o enwebiadau milwrol a gyflwynir i Senedd yr Unol Daleithiau yn ystod pob sesiwn dwy flynedd o'r Gyngres.[98]

Dyma'r broses a fabwysiedir fel rheol ar gyfer penodiadau barnwrol a phenodiadau i asiantaethau annibynnol:

- Cyfeirir yr enwebiad, ynghyd â phapurau cefndir perthnasol at un o bwyllgorau'r Senedd.
- Bydd y pwyllgor yn craffu ar yr enwebai drwy edrych ar ei gefndir, ei addasrwydd ar gyfer y swydd, ei sefyllfa ariannol a'i ddylanwad tebygol.
- Cynhelir gwrandawiad lle y bydd yr enwebai'n tystio o dan lw mewn cyfarfod agored.
- Bydd y pwyllgor yn rhoi adroddiad ffafriol neu anffafriol am yr enwebai ac yna, bydd y Senedd yn ystyried ac, mewn achosion priodol, yn cadarnhau'r penodiad.[99]

Yn ôl memorandwm polisi a baratowyd gan Senedd yr Alban yn 2001 a oedd yn cyd-fynd â *Bil Penodiadau Cyhoeddus (Cymeradwyaeth Seneddol) (Yr Alban)*, mae system Senedd yr Unol Daleithiau wedi cael ei beirniadu dros y blynyddoedd:

> It takes lengthy periods to confirm appointments, the average being 99.5 days. There is no time limit imposed on the committee to action the nomination. The other controversial aspect of the Senate system is the inquisitorial nature of the hearings and intrusive type of

[94] Senedd Ewrop, Datganiad i'r Wasg, ***Nikiforos Diamandouros re-elected as European Ombudsman***, 20 Ionawr 2010
[95] Ibid
[96] Senedd Ewrop, ***Appointment procedures***
[97] Senedd yr Unol Daleithiau, ***Nominations***
[98] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur Ymchwil 08/39 ***Parliamentary involvement in public appointments***, 23 Ebrill 2008, tudalen 48,
[99] Senedd yr Alban, Memorandwm Polisi ***Public Appointments (Parliamentary Approval) (Scotland) Bill***, 3 Medi 2001, paragraff 29,

investigations held into the nominees. This is said to deter people from putting their names forward for nomination.[100]

Er 1789, llai na dau y cant o holl enwebiadau'r Cabinet sydd wedi'u gwrthod yn bendant gan y Senedd a methwyd â chadarnhau bron chwarter yr holl enwebiadau.[101]

## *5.5. Senedd Canada*

Ar hyn o bryd, mae gan Senedd Canada wyth "Swyddog Seneddol" sy'n cyflawni dyletswyddau a neilltuwyd iddynt drwy statud. Mae'r rhain yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol, y Prif Swyddog Etholiadol, y Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol, y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Preifatrwydd, y Comisiynydd Gwrthdaro rhwng Buddiannau a Moeseg, y Comisiynydd Lobïo a Chomisiynydd Uniondeb y Sector Cyhoeddus.

Penodir pob swyddog gan Lywodraethwr Cyffredinol y Cyfrin Gyngor ar ôl ymgynghori ag arweinydd pob plaid a gydnabyddir yn Senedd Canada a Thŷ'r Cyffredin ac ar ôl i'r Senedd a Thŷ'r Cyffredin gymeradwyo'r penodiad. Yr eithriad yw'r Prif Swyddog Etholiadol a benodir drwy benderfyniad Tŷ'r Cyffredin yn unig.[102]

Er 1985, caniatawyd i bwyllgorau'r senedd adolygu enwebiadau a phenodiadau a wneir gan Lywodraethwr y Cyfrin Gyngor. O safbwynt ymarferol fodd bynnag, ychydig sydd wedi cael eu hadolygu fel hyn, fel yr esbonia'r papur a ganlyn a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth ac Ymchwil Senedd Canada yn 2006:

> From 1989 to 2004, only 62 meetings out of a total of 12,783 committee meetings concerned GIC nominations or appointments. [103]

Dywed y papur hefyd, er y gallai caniatáu i bwyllgorau ddylanwadu ar enwebiadau neu benodiadau a wneir gan Lywodraethwr y Cyfrin Gyngor olygu bod mwy o sylw'n cael ei roi i'r penodiadau hyn, go brin y gallai'r pwyllgorau ymdopi ag adolygu llawer iawn o enwebiadau neu benodiadau'r Llywodraethwr oherwydd bod eu hagendâu eisoes yn brysur.[104] Awgrymir yn y papur sut y gellid datrys hyn:

> … a committee devoted entirely to reviewing GIC nominations and appointments could be set up to avoid burdening the other committees and distracting them from their other required agenda items, or committees might establish subcommittees on nominations and appointments".[105]

---

[100] Ibid, paragraff 31

[101] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur Ymchwil 08/39 ***Parliamentary involvement in public appointments***, 23 Ebrill 2008, tudalen 48,

[102] Llyfrgell Senedd Canada, Papur Cefndir ***Appointment of Officers of Parliament***, 6 Chwefror 2012

[103] Llyfrgell Senedd Canada, ***Governor in Council appointments: Recent changes and suggestions for reform***, 17 Mai 2006, tudalen 12,

[104] Ibid

[105] Ibid